CANOLFAN BRIFYSGOL
CAMBRIA
UNIVERSITY CENTRE

MYNEDIAD 2026

# CLICIWCH GYDA CAMBRIA

Liverpool John Moores University | Swansea University Prifysgol Abertawe | Pearson | Prifysgol Wrecsam Wrexham University | Prifysgol Bangor University

WWW.CAMBRIA.AC.UK | 0300 30 30 007

# CYNNWYS

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

## Gwybodaeth am Cambria


| | |
|---|---|
| Croeso | **03** |
| Meysydd Pwnc | **04** |
| Cyfleusterau o’r Radd Flaenaf | **05** |
| Partneriaid Prifysgol | **09** |
| Cymorth a Gwasanaethau Myfyrwyr | **11** |
| Cymorth Ariannol | **12** |
| Cynhwysiant | **13** |
| Profiadau Dysgwyr | **14** |
| Llyfrgelloedd a Sgiliau Academaidd | **15** |
| Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg | **16** |
| Pam Astudio Gyda Ni? | **17** |
| Gwybodaeth am Gymwysterau | **18** |
| Datblygu Proffesiynol/ Cambria ar gyfer Busnes | **19** |
| Cyrsiau Cambria ar gyfer Busnes | **20** |
| Hanesion Myfyrwyr Llwyddiannus | **23** |







## DIGWYDDIADAU AGORED 2025/2026

**Bydd digwyddiadau agored yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn**

**Cliciwch yma am amseroedd a dyddiadau**

# CROESO

**Croeso cynnes i Cambria. Rydw i wrth fy modd eich bod chi'n ystyried astudio gyda ni ar gyfer eich cymhwyster Addysg Uwch / Sgiliau Technegol Uwch.**

Mewn partneriaeth â rhai o'r prifysgolion gorau yng Nghymru a Lloegr, rydyn ni'n gallu cynnig graddau galwedigaethol a chymwysterau technegol lefel uwch o ansawdd uchel. Wedi'u dylunio i fodloni cyfleoedd cyflogaeth cyfredol, bydd ein rhaglenni'n datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd a'ch rhagolygon gyrfa.

Mae gan Ganolfan Brifysgol Cambria enw da profedig am ragoriaeth. Rydyn ni'n cyfuno addysgu ysbrydoledig gyda gofal rhagorol i fyfyrwyr i sicrhau eich bod chi'n cael y gorau o'r buddsoddiad rydych chi'n ei wneud gyda ni. Felly beth bynnag yw eich man dechrau, gallwch chi fod yn sicr y byddwn ni'n rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi i gyflawni canlyniad rhagorol.

**Rydw i'n dymuno'r gorau i chi yn eich astudiaethau.**



**Emma Hurst**
**Deon Addysg Uwch a Mynediad i AU**

*"Mae myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth y maen nhw'n ei chael a'r ymrwymiad i hygyrchedd staff mewn swyddi academaidd a chymorth i fyfyrwyr."*

**Adolygiad Ansawdd QAA, 2023.**

QAA Cymru
UK Quality Assured
Sicrwydd Ansawdd y DU

# CLICIWCH YMA

**am deithiau 3D o'n holl safleoedd**

**Mae gan Cambria rhai o'r cyfleusterau addysgu, dysgu a hyfforddi gorau yn y DU.**

# MEYSYDD PWNC

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

**Cliciwch yma am ragor o wybodaeth**


| | | |
|---|---|---|
| Addysgu, Asesu ac Addysg | Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau | Busnes, Arwain a Rheoli |
| E-chwaraeon | Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid | Gofal Plant, Astudiaethau Plentyndod a Gwaith Chwarae |
| Gwyddorau Cymdeithasol a Throseddeg | Iechyd Meddwl a Llesiant* | Lletygarwch ac Arlwyo |
| Mynediad i Addysg Uwch | Peirianneg, Gweithgynhyrchu a Chynnal a Chadw | Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG |


*Yn ddibynnol ar ddilysrwydd













# CYFLEUSTERAU O'R RADD FLAENAF

## GLANNAU DYFRDWY

Mae gan Goleg Cambria Glannau Dyfrdwy enw da rhagorol, ac ar ôl buddsoddiad sylweddol mae'n gartref i Chweched Glannau Dyfrdwy a'r Ganolfan Brifysgol.
Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Peirianneg arobryn yn cynnwys cyfleusterau peirianneg safon fyd-eang ac mae'r cyfleusterau chwaraeon ymhlith y gorau yn y rhanbarth.

O fewn ein safle Glannau Dyfrdwy, rydyn ni wedi creu ein Hacademi E-chwaraeon newydd. Mae'n cynnwys offer gwych, gan gynnwys dwy ystafell E-chwaraeon bwrpasol, gyda chynhwysiant yn eu gwreiddio, mae'r cyfleusterau hyn yn eu gosod ni fel sefydliad sy'n arwain diwydiant E-chwaraeon ar hyd a lled Cymru. Hefyd o fewn ein gweledigaeth o greu Canolfan Gosmetoleg a hwb cymunedol mae sefydlu canolfan ddeinamig a phwrpasol yng Nglannau Dyfrdwy. Mae hyn yn rhoi Cambria ar y blaen o ran hyrwyddo ecwiti o fewn y diwydiant Gwallt a Harddwch drwy gwricwlwm sy'n unigryw i'n sefydliad.






Ein nod yw darparu dysgwyr gyda phrofiad addysgol rhagorol sy'n eu cyfarparu nhw gyda'r sgiliau, hyder, a gwytnwch sydd eu hangen arnyn nhw i adeiladu gyrfa lwyddiannus. Ein nod yw ysbrydoli trwy raglen flaengar, sy'n ymroddedig i wasanaethu dysgwyr, cyflogwyr, a'r gymuned ehangach.





# IÂL


Mae gan Cambria Iâl enw da am ragoriaeth ers blynyddoedd. Mae'r safle hon yn cynnwys ystod drawiadol o gyfleusterau gydag adnoddau rhagorol. Yn ddiweddar mae'r safle wedi cael ailddatblygiad gyda rhagor o fuddsoddiad i allu cynnal profiadau o'r radd flaenaf mewn Gofal Iechyd, Gwallt a Harddwch, ac Arlwyo.

Mae cyfleusterau addysgu arbenigol yn cynnwys labordai gwyddoniaeth sydd â chyfarpar da, ystafelloedd cyfrifiadurol, theatr safon y diwydiant a stiwdios celf. Mae bob myfyriwr yn gallu cyrchu'r dechnoleg ddiweddaraf ac rydyn ni'n eu hannog nhw i ddefnyddio'r llyfrgell arddull prifysgol sydd â lle dros dri llawr i ymgymryd ag astudiaeth breifat.












# LLANEURGAIN

Mae ein safle Llaneurgain wedi'i leoli ar 90 erw o gefn gwlad godidog. Wedi'i leoli yn yr Wyddgrug, mae modd cyrraedd Llaneurgain o ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn ogystal â Swydd Caer, Cilgwri a Swydd Amwythig. Yn Llaneurgain, llwyddiant myfyrwyr yw ein blaenoriaeth. Mae ein tîm o staff pwrpasol yma i ysbrydoli, cymell, herio a helpu ein myfyrwyr i gynyddu eu potensial yn eu diwydiant arbenigol.

Mae'r ganolfan gofal anifeiliaid yn cynnig cyfle gwych i ddysgu am ofalu a rheoli ymhell dros gant o wahanol rywogaethau o anifeiliaid.














# FFORDD Y BERS


Mae gan Goleg Cambria Ffordd y Bers, rai o'r cyfleusterau gorau yn y rhanbarth. Rydyn ni wedi buddsoddi'n helaeth i sicrhau ein bod ni'n cynnig yr offer a'r dechnoleg orau i chi i'ch helpu chi gyda'ch astudiaethau. Yn ddiweddar, mae ein safle wedi cael ailddatblygiad gwerth £8.5m a oedd yn cynnwys Canolfan Technoleg Peirianneg newydd o'r radd flaenaf, gweithdai Adeiladu, Weldio a Cherbydau Modur, sy'n darparu addysg o'r radd flaenaf.










# CLICIWCH YMA

**am deithiau 3D o'n holl safleoedd**

**Mae gan Cambria rai o'r cyfleusterau addysgu, dysgu a hyfforddi gorau yn y DU**

# PARTNERIAID PRIFYSGOL

**Mae pob cwrs lefel gradd Canolfan Brifysgol Cambria wedi'i ddilysu gan rai o'r prifysgolion gorau yn y DU. Ein partneriaid presennol yw Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU), Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam.**

LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY

### LJMU - Gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd

Mae Prifysgol John Moores Lerpwl yn sefydliad nodedig ac unigryw, wedi'i gwreiddio yn Ninas Lerpwl ond mae ganddi bresenoldeb byd-eang.

Ein myfyrwyr a'n staff, yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol, yw calon ein dinas a gellir eu canfod ym mhob cornel o bob diwydiant a chymuned. Does unman arall i ni, a ni sy'n siapio Lerpwl.

Mae gweithio gyda phobl ein dinas i wella bywydau a chefnogi cymunedau wrth wraidd y rheswm pam y cawsom ni ein sefydlu a pham rydyn ni'n bodoli heddiw.

Mae tyfu a chefnogi ein cymuned yn ymrwymiad, i weithio mewn partneriaeth ar ddyfodol cynhwysol a chadarnhaol i bawb o'n cwmpas.


Mae'r byd yn newid ar gyflymder anhygoel ac rydyn ni'n credu mai ein cenhadaeth yw datblygu pobl gyffrous, dewr, gwydn a chroesawu newid effeithiol a dylanwadol.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

### Prifysgol Abertawe

Prifysgol Abertawe yw'r 25ain yn y DU a'r gorau yng Nghymru (Canllaw Prifysgol The Guardian 2024) ac mae o fewn y 300 prifysgol gorau yn y byd (Graddio QS 2024), gyda rhagolygon gyrfa rhagorol (95% mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach - Canlyniadau Graddedigion 2023).

Mae Prifysgol Abertawe yn ymestyn dros ddwy safle drawiadol ym mhob pen o lan y dŵr yn Abertawe. Mae Safle Parc Singleton wedi'i lleoli mewn parcdir aeddfed a gerddi botanegol, gan edrych dros draeth Bae Abertawe. I'r dwyrain o'r ddinas mae Safle'r Bae, cartref i rannau o Gyfadran y Wyddoniaeth a Pheirianneg, a Chyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sy'n cwmpasu'r Ysgol Reoli. Mae Safle'r Bae yn darparu amgylchedd o'r radd flaenaf ar gyfer cydweithio mewn ymchwil, dysgu ac addysgu, menter ac arloesedd.



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Bangor

Wedi'i sefydlu yn 1884, erbyn heddiw mae Prifysgol Bangor yn sefydliad blaengar, sy'n ffynnu ac yn cynnig cyfleoedd rhagorol. Ar hyn o bryd mae tua 10,000 o fyfyrwyr yn astudio gyda ni ac mae ein haddysgu a hyfforddiant wedi'u grwpio mewn deg ysgol academaidd.

Rydyn ni'n hynod o falch o ansawdd ein haddysgu, ac rydyn ni'n cynnig cyrsiau ar draws y celfyddydau, dyniaethau, a gwyddorau. Mae ein staff wedi bod yn gwneud argraff, gydag ymchwil llesiant diwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ers bron i 140 mlynedd. Mae llawer o'n myfyrwyr hefyd yn dewis astudio gyda ni oherwydd natur fach a chyfeillgar y Brifysgol a'r dref. Yn agos at safle Treftadaeth y Byd UNESCO, gyda golygfeydd mynyddoedd a môr dramatig, mae lleoliad Bangor yn ddigymar. Mae bywyd myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor yn fywiog ac amrywiol. Mae gennym ni fwy na 150 o Glybiau Undeb Myfyrwyr, Cymdeithasau, a Phrosiectau Gwirfoddoli sy'n cwmpasu ystod o ddiddordebau, gweithgareddau a chwaraeon, ac mae aelodaeth am ddim, felly gall ein holl fyfyrwyr fanteisio ar y cyfleoedd allgyrsiol a gynigir. Rydyn ni'n rhoi blaenoriaeth uchel i ofalu am ein myfyrwyr a'u cefnogi. Mae ein hystod gynhwysfawr o wasanaethau yn ymestyn o ganllawiau gyrfaoedd a chyflogadwyedd i wasanaethau llesiant myfyrwyr, gan gynnwys cwnsela a chefnogaeth. Rydyn ni'n cynnig cefnogaeth anabledd ac mae gennym ni dîm gwahaniaethau dysgu penodol pwrpasol. Gall y tîm cymorth i fyfyrwyr hefyd helpu gydag amrywiaeth o faterion gan gynnwys pryderon ariannol, tai, iechyd a gofal bugeiliol, pob un wedi'i gynllunio i wella'ch profiad prifysgol a'ch datblygiad personol. Mae Bangor yn lle ysbrydoledig i fyw a dysgu - y lle delfrydol i dyfu, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.


Prifysgol Wrecsam Wrexham University

## Prifysgol Wrecsam

Yn llunio dyfodol ers 1887, mae Prifysgol Wrecsam yn gymuned ddysgu fywiog, gyfeillgar a chynhwysol, sy'n canolbwyntio ar eich ysbrydoli chi i anelu'n uwch ac i gyflawni rhagor drwy'r profiadau a'r wybodaeth y byddwch chi'n eu hennill wrth i chi astudio gyda ni.

Rydyn ni ar flaen y gweddill yng Nghymru a Lloegr am Gynhwysiant Cymdeithasol saith mlynedd yn olynol (Canllaw Prifysgolion Da The Times and Sunday Times, 2025) ac mae ein myfyrwyr bob amser yn rhoi sylwadau ar awyrgylch cymunedol ein safleoedd, gan fod astudio yma yn teimlo fel cartref.

Mae Prifysgol Wrecsam wedi bod yn darparu addysg ers 1887 a dechreuon ni gynnig graddau am y tro cyntaf ym 1924. Daethom ni'n Brifysgol Glyndŵr Wrecsam yn 2008 ac mi wnaethom ni ail-frandio i Brifysgol Wrecsam yn 2023, gyda'r nod o gynyddu adnabyddiaeth a chyrhaeddiad y brand yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae ein hanes cyfoethog a'n ffocws ar gynnydd wedi'u tystio i'r ffaith ein bod ni'n rhedeg prosiect gwerth £80 miliwn ar hyn o bryd i wella ein safleoedd a'n cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol. Rydyn ni'n falch o fod wedi cwblhau nifer o brosiectau bellach, sy'n cynnwys Canolfan Efelychu Gofal Iechyd, mannau cymdeithasol a dysgu bywiog, labordai gwyddoniaeth pwrpasol, Ystafell Glinigol Nyrsio Milfeddygol, Labordy Biomecaneg a Gwyddorau Perfformio a llawer rhagor!



# CYMORTH A GWASANAETHAU MYFYRWYR

**Yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, mae gennym ni dîm Gwasanaethau Myfyrwyr ymroddedig wrth law ym mhob safle i wneud eich amser gyda ni mor hawdd a phleserus â phosibl.**

## Gwasanaethau Myfyrwyr

Rydyn ni ar agor ar bob safle, o ddydd Llun i ddydd Iau 8.00am - 5.00pm a 8.00am - 4.30pm ar ddydd Gwener **(yn ystod y tymor yn unig)**

**0300 30 30 007**
**gwasanaethaumyfyrwyr@cambria.ac.uk**

## Diogelu

Mae'r coleg wedi ymrwymo i'ch diogelwch chi yn y coleg a thu allan i'r coleg yn ystod eich amser fel myfyriwr gyda ni. Os ydych chi angen trafod eich diogelwch, cysylltwch â'r tîm Diogelu ar **0300 30 30 009** neu siaradwch ag aelod o'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr.

**diogelu@cambria.ac.uk**

## Bwlio

Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo'n ddiogel. Os ydych chi'n cael eich bwlio neu'n gweld eraill yn cael eu bwlio, dywedwch wrth aelod o staff neu cysylltwch â Gwasanaethau Myfyrwyr ar unwaith.

## Tiwtoriaid Personol

Fel myfyriwr lefel uwch, byddwch ch'n cael tiwtorialau unigol a grŵp rheolaidd gyda'ch Tiwtor Personol. Bydd eich Tiwtor Personol yn monitro'ch cynnydd yn agos ac yn eich cefnogi chi drwy gydol eich astudiaethau, gan eich helpu chi i gadw ar y trywydd iawn gyda'ch dysgu.

## Caplaniaeth

Mae'r Gaplaniaeth yma i bawb; Ar gyfer pob ffydd a chred. Rydyn ni'n cynnig cefnogaeth ffydd benodol, Mannau Aml-Ffydd a Chred ar gyfer Gweddi, Myfyrio ac Adfyfyrio a hefyd gweithdai a digwyddiadau sy'n dathlu'r amrywiaeth ryfeddol o fewn ein cymuned.

**I gael gwybod rhagor, anfonwch e-bost at caplaniaeth@cambria.ac.uk**

## Cludiant

Os ydych chi'n fyfyriwr llawn amser neu addysg uwch, rydyn ni'n cynnig darpariaeth cludiant â chymhorthdal, naill ai ar fws coleg dynodedig neu docyn bws cyhoeddus tymhorol Arriva. I fod yn gymwys i gael cludiant â chymhorthdal, bydd angen i chi fyw dros 3 milltir o safle'r coleg agosaf sy'n cyflwyno'ch cwrs dewisol*. Os ydych chi'n teithio ar feic, byddwch chi'n gallu cyrchu raciau beiciau yn y rhan fwyaf o safleoedd.

*yn amodol ar gymhwysedd

## Eich Diogelwch

Mae diogelwch a lles ein holl fyfyrwyr yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni am i chi deimlo'n ddiogel, eich bod chi'n cael eich cefnogi a'ch gofalu amdanoch chi. Bydd ein staff yn sicrhau eich bod chi'n ddiogel yn ystod eich astudiaethau ac yn darparu cefnogaeth gydag anawsterau personol.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â diogelu@cambria.ac.uk**

### GWYBODAETH AC ARWEINIAD

Ni yw eich hwb cymorth ymroddedig ar gyfer popeth academaidd a phersonol. Mae ein tîm profiadol yma i'ch tywys chi trwy eich taith addysgol, gan eich cysylltu â'r holl feysydd cymorth cywir, cynnig cymorth gyda dewis cyrsiau, cynllunio gyrfa, a datblygiad personol. Angen help gyda dysgu, cludiant neu gymorth ariannol? Rydyn ni yma i chi. Yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr yn ffynnu. Cysylltwch â ni heddiw a gadewch i ni eich helpu chi i wneud y gorau o'ch profiad!

**Cliciwch yma am ragor o wybodaeth**

# CYMORTH ARIANNOL

**Gall dewis astudio ar lefel uwch fod yn fuddsoddiad yn eich dyfodol. Byddwn ni'n rhoi cyngor ac arweiniad i chi i'ch helpu chi gydag unrhyw bryderon ariannol. Fel myfyriwr Addysg Uwch (AU) neu Sgiliau Technegol Uwch (HTS), gallwch chi gyrchu amrywiaeth o gymorth ariannol.**

## Bwrsariaethau Cambria

I'r rhai sy'n ymgymryd â rhaglen astudio Lefel Uwch yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, efallai y byddwch chi'n gymwys i gael cymorth ariannol nad oes rhaid ei ad-dalu trwy ein Bwrsariaeth AU / HTS.

### Sut mae'n cael ei dalu?

- Arian (gwobr sefydlog) i'ch cyfrif banc
- Credyd safle Cambria (sefydlog a gwobr mewn nwyddau trwy dalebau). Unedau theori i'ch helpu chi i ddatblygu gwybodaeth. Gweithdai ymarferol i ddatblygu eich sgiliau

## Cyllid Myfyrwyr

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a Chyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnig benthyciadau (rydych chi'n eu had-dalu) a grantiau (nad ydych chi'n eu had-dalu) i unrhyw un sy'n astudio cyrsiau AU / HTS yng Nghanolfan Brifysgol Cambria. Bydd eich cymhwysedd yn dibynnu ar y math o gwrs, ble rydych chi'n byw ac incwm eich cartref.*

*Mae Telerau ac Amodau llawn yn berthnasol a bydd y taliad yn cael ei atal os na fydd y myfyriwr yn bodloni'r amodau gofynnol.

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

## Ble i wario credyd safle Cambria?

## Gofal Plant

Ym Meithrinfa Toybox rydyn ni'n cynnig gofal plant o ansawdd eithriadol, gan sicrhau bod rhieni a phlant yn mynd i mewn i amgylchedd sy'n groesawgar a chyfeillgar, gyda gofal ac addysg o'r safon uchaf. Mae gennym ni'r ddarpariaeth i fodloni anghenion plant ag anghenion ychwanegol.

Gyda lleoliad sy'n darparu addysgofal i blant rhwng 3 mis a phump oed, mae'n bwysig deall ein bod ni'n ystyried pob grŵp oedran fel carreg gamu tuag at eu paratoi ar gyfer eu dyfodol.

Mae ein meithrinfa'n darparu lleoedd llawn amser a rhan-amser i staff, myfyrwyr ac aelodau'r gymuned leol.

**I ddarganfod rhagor ewch i**
**toybox-nursery.cambria.ac.uk**
**toybox@cambria.ac.uk | 01978 267159**

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

# CYNHWYSIANT

Yma yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, rydyn ni wedi ymrwymo i gynhwysiant. Rydyn ni'n hyrwyddo cydraddoldeb yn weithredol ac yn dathlu amrywiaeth Gyda'n dull cynhwysol a'r gefnogaeth a'r addasiadau rydyn ni'n eu cynnig, rydyn ni'n gallu bodloni ystod eang o anghenion.

**Cliciwch yma am ragor o wybodaeth**

## Cymorth Arbenigol

Mae cymorth dysgu arbenigol ar gael ar draws ein holl safleoedd. Mae ein dull wedi'i deilwra i chi a'ch anghenion unigol chi. Gellir rhannu eich anghenion cymorth gyda ni cyn i'ch cwrs ddechrau neu ar unrhyw adeg yn ystod eich cwrs astudio. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi neu wahaniaeth dysgu penodol, gall ein tiwtoriaid arbenigol eich cefnogi a'ch arwain chi. Gallan nhw eich cefnogi chi gyda:

- Gwneud Cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)
- Defnyddio technolegau cynorthwyol
- Strategaethau arbenigol mewn dysgu effeithiol

A llawer rhagor...

**I ddarganfod rhagor anfonwch e-bost at cymorthau@cambria.ac.uk**

## Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae ein Tîm Iechyd Meddwl a Llesiant yma i'ch cefnogi chi ac mae ganddyn nhw amrywiaeth o adnoddau ar gael. Cysylltwch â ni i drefnu cefnogaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at llesiant@cambria.ac.uk**




## Tegwch a Pherthyn

Rydyn ni yma i wneud yn siŵr y gall pawb deimlo'n perthyn yma yng Ngholeg Cambria! Waeth beth yw eich nodweddion, hunaniaeth neu brofiadau, mae croeso i chi yma yn y coleg.

Gallwn ni gynnig cefnogaeth i ddysgwyr sydd wedi profi aflonyddu neu wahaniaethu, neu os oes gennych chi syniadau ar sut i wneud coleg yn lle mwy cynhwysol i bawb!

Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y coleg i greu diwylliant o garedigrwydd. Os oes angen cefnogaeth arnoch chi gydag ymddygiad, cysylltwch â ni.

**I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at perthyn@cambria.ac.uk**

# PROFIADAU DYSGWYR

CANOLFAN BRIFYSGOL
CAMBRIA
UNIVERSITY CENTRE

## Llais Myfyrwyr

Ymunwch â Llais Myfyrwyr a gwnewch wahaniaeth.

Llais Myfyrwyr yw sut rydych chi'n cael dweud eich dweud a newid yr hyn sy'n digwydd. Dewch yn Gynrychiolydd Dosbarth a chynrychiolwch eich dosbarth i ennill sgiliau gwerthfawr a allai o bosibl wella'ch cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol. Gall myfyrwyr hefyd gymryd rhan yn y blog myfyrwyr a phodlediadau.

Gwahoddir Cynrychiolwyr Myfyrwyr i gymryd rhan yn Senedd y Myfyrwyr a chael y cyfle i gymryd rhan mewn diwrnod adeiladu tîm.

**I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost at llaismyfyrwyr@cambria.ac.uk**

## PALS

Rhaglen PALS: Arweinwyr Heini Cadarnhaol
Wedi'i dylunio i rymuso merched a chwalu'r rhwystrau sy'n aml yn rhwystro merched rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch cadarnhaol, nod y rhaglen hon yw adeiladu hyder a'ch helpu chi i deimlo'n fwy cadarnhaol am gadw'n heini.

**pals@cambria.ac.uk**





## Cambria Heini

Rydyn ni'n darparu rhaglen llesiant helaeth a chynhwysol, sy'n cynnwys gweithgareddau aml-chwaraeon a ffitrwydd llawn antur fel ioga, troelli, pêl-droed, pêl osgoi, badminton a gemau tîm hwyliog. Gallwn ni hefyd gynnig cyngor ar gwsg, maeth, cryfder, ffitrwydd a ffordd o fyw.

**cambriaheini@cambria.ac.uk**

# Y LLYFRGELL A SGILIAU ACADEMAIDD




Mae astudio yng Nghanolfan Brifysgol Cambria yn eich galluogi chi i gyrchu nifer o lyfrgelloedd llawn cyfarpar ar draws safleoedd Cambria. Mae'r llyfrgelloedd yn llefydd diogel, cynhwysol a chroesawgar wedi'u dylunio i gefnogi eich anghenion dysgu. Mae gennym ni feysydd astudio tawel ar gyfer grwpiau neu waith unigol, gallwch chi gyrchu cyfrifiaduron a Chromebooks i'w defnyddio ar y safle neu gartref. Mae cyfleusterau argraffu a chymorth i gysylltu'ch teclynnau eich hun gyda wifi'r coleg, yn ogystal â help i ddatblygu eich sgiliau digidol wrth astudio gyda ni.

Bydd cyfleoedd i chi ofyn am gyngor gan dîm sgiliau academaidd proffesiynol a chymwys i arwain eich taith ddysgu. Rydyn ni'n darparu cefnogaeth academaidd grŵp a chefnogaeth academaidd 1:1 wedi'i theilwra ar ystod eang o bynciau academaidd allweddol gan gynnwys gwerthuso beirniadol, ymchwil effeithiol a chyfeirio gyda llwybrau syml a hygyrch i hunangyfeirio am gefnogaeth ychwanegol lle bo angen.

Yn ogystal ag arweiniad personol, byddwch chi'n gallu cyrchu llenyddiaeth ymchwil o ansawdd uchel 24/7 sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, sy'n arwain y sector, amrywiaeth o lwyfannau e-lyfrau i chi allu cyrchu eich darllen hanfodol ac ehangach yn hyblyg, ynghyd â chyfleoedd i ofyn am deitlau llyfrau rydych chi eisiau eu gweld yn cael eu hychwanegu at gatalog y llyfrgell.



# ASTUDIO DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

Mae nifer gynyddol o gyflogwyr yn chwilio am staff sydd â sgiliau dwyieithog a bydd dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi sylfaen ardderchog i chi ar gyfer eich gyrfa.

Yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, mae gennych chi'r dewis o gyflwyno eich aseiniadau yn y Gymraeg a chael adborth dwyieithog, gan gynnwys terminoleg benodol i'r pwnc. Mae digonedd o gyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau iaith Gymraeg drwy ddilyn cyrsiau Cymraeg ochr yn ochr â'ch rhaglenni cyfrwng Saesneg.

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan eich galluogi chi i gyrchu deunyddiau dysgu Cymraeg ar-lein, adnoddau digidol, ystod eang o adnoddau fel llyfrgell adnoddau Cymraeg, cyrsiau byr, a rhestr termau gynhwysfawr. Yn ogystal, mae ein swyddog Cangen Cymraeg Cambria yn trefnu pob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg.

**I ddarganfod rhagor anfonwch e-bost at help.cymraeg@cambria.ac.uk**




**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

Cymraeg



# PAM ASTUDIO GYDA NI?

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

- GOFAL A SYLW UNIGOL
- ENW DA CENEDLAETHOL AM RAGORIAETH
- ADDYSGU YSBRYDOLEDIG
- GWERTH AM ARIAN RHAGOROL
- CYSYLLTIADAU CADARN GYDA CHYFLOGWYR
- AMGYLCHEDD CYNHWYSOL
- TIWTORIAID GYDAG ARBENIGEDD Y DIWYDIANT
- ADNODDAU SY'N ARWAIN Y SECTOR
- MYFYRWYR BODLON IAWN
- DIWYLLIANT DYSGU CADARNHAOL

# GWYBODAETH AM GYMWYSTERAU

## Mynediad i Addysg Uwch (AU)

Mae ein cyrsiau Lefel 3 mewn Mynediad i Addysg Uwch yn eich paratoi chi ar gyfer astudio am radd ac maen nhw wedi'u dylunio ar gyfer bobl sydd wedi gadael ysgol heb y cymwysterau arferol. Gallwch chi gofrestru ar gwrs Mynediad i AU i'ch helpu chi i ddychwelyd i ddysgu a symud ymlaen at astudiaeth lefel gradd.

## HNC a HND - Tystysgrif/Diploma Cenedlaethol Uwch

Mae Tystysgrif neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch yn gymhwyster galwedigaethol sy'n rhoi'r sgiliau i chi roi eich gwybodaeth ar waith ar gyfer swydd benodol. Gan eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, maen nhw'n cynnig llwybr amgen i Addysg Uwch. Fel arfer mae HNC yn cymryd blwyddyn o astudio llawn amser neu ddwy flynedd o astudio rhan-amser ac yn gyfwerth â chwblhau eich blwyddyn gyntaf yn y brifysgol. Fel arfer, mae HND yn cymryd dwy flynedd o astudio llawn amser, tair blynedd o astudio rhan-amser neu flwyddyn fel 'ychwanegiad' os ydych chi eisoes wedi cwblhau HNC. Gall cymhwyster HND weithiau ganiatáu i chi gyrchu rhaglen gradd trydedd flwyddyn yn uniongyrchol.

## HN Flex

Mae HN Flex yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio sgiliau y gellir eu pentyrru o fewn un cymhwyster Cenedlaethol Uwch BTEC o'n hystod o bynciau, gyda'r cyfle i symud ymlaen i gymhwyster Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (HND), gan gyflawni Tystysgrif Credyd Uned (CoUC) ar ôl cwblhau'r unedau unigol rydych chi wedi'u hastudio.

## Graddau Sylfaen

Mae gradd sylfaen yn gymhwyster sy'n cyfuno astudiaeth academaidd â dysgu yn y gweithle. Maen nhw wedi'u cynllunio a'u datblygu gyda chyflogwyr ac maen nhw'n cyfateb i astudio am y ddwy flynedd gyntaf yn y brifysgol.

## Graddau

Ar ôl cwblhau eich HND neu radd sylfaen gallwch chi ychwanegu at eich gradd i lefel Baglor, sy'n cyfateb i drydedd flwyddyn o brifysgol. Mae ein hystod o gyrsiau gradd yn parhau i ehangu ac yn cael eu cefnogi'n eang gan gyflogwyr sy'n cyfrannu at ddatblygiad y cyrsiau hyn.

## Prentisiaethau Uwch

Mae Prentisiaethau Uwch yn llwybr amgen gwych i gyflawni cymwysterau lefel uwch.
Maen nhw'n rhaglen dysgu yn y gwaith achrededig yn genedlaethol sydd wedi'u cynllunio i fodloni anghenion cyflogwyr i adeiladu gweithlu cymwys iawn. Mae llawer o Brentisiaethau Uwch yn cynnwys rhaglenni gradd, HNC neu radd sylfaen, mae eraill yn cynnwys cyrsiau proffesiynol lefel uwch fel AAT ac ILM. Byddan nhw'n caniatáu i chi ddysgu ar lefel gradd gyda ffioedd dysgu â chymhorthdal a'r cyfle i ennill wrth i chi ddysgu.

## Prentisiaethau Gradd

Mae Prentisiaethau Gradd yn cyfuno gweithio ag astudio'n rhan-amser. Mae prentisiaid yn treulio rhan o'u hamser yng Nghanolfan Brifysgol Cambria a'r gweddill gyda'u cyflogwr. Gallan nhw gymryd tair blynedd i'w cwblhau, yn dibynnu ar lefel y cwrs. Mae Prentisiaethau Gradd yn dal yn eithaf newydd, felly nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael. Rydyn ni'n credu y bydd y nifer o lefydd yn tyfu dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

## Datblygu Proffesiynol

Gall cyrsiau datblygu proffesiynol eich helpu chi i symud ymlaen yn y gweithle a dringo'r rhengoedd yn eich gyrfa. Mae ystod eang o lwybrau datblygu proffesiynol wedi'u sefydlu i gefnogi llawer o ystodau o ddatblygiad a chynnydd gyrfa. Mae Cambria yn cynnig datblygu proffesiynol mewn llawer o feysydd wedi'u hachredu gan NEBOSH, IOSH, CIPD, AAT, PRINCE2® ac ILM.

## AHO - TAR/ PCE Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

Mae'r Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (TAR) a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (PTA) yn gymwysterau academaidd un neu ddwy flynedd sy'n cael eu hastudio naill ai ar ôl gradd (TAR) neu ar ôl cymhwyster Lefel 3 (PTA). Bydd y TAR/PTA sy'n cael ei chynnig gan Ganolfan Brifysgol Cambria yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi addysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol e.e. Addysg Bellach, dysgu yn y gwaith ac addysg oedolion.

# YSGOL FUSNES CAMBRIA

Cliciwch yma
am ragor o
wybodaeth

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS



# DATBLYGWCH EICH GYRFA GYDAG YSGOL FUSNES CAMBRIA



**Yma yn Ysgol Fusnes Cambria mae gennym ni gyrsiau i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau gyrfa a gwireddu eich potensial llawn.**

Gallwch chi astudio cyrsiau rhan-amser mewn Cyfrifeg, Cyrsiau Byr Rheoli Proffesiynol, Hyfforddi a Mentora, Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Arwain a Rheoli, Iechyd Meddwl a Llesiant a Rheoli Prosiectau.

## Cyfrifeg AAT (Cymdeithas Technegwyr Cyfrifeg)

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

AAT yw prif gorff proffesiynol y DU sy'n cynnig cymwysterau cyfrifeg a chyllid sy'n seiliedig ar sgiliau. Mae eu cymwysterau'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gyflogwyr fel cymwysterau galwedigaethol a thechnegol sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith ac ar gyfer gweithio'n benodol mewn swyddi cyfrifeg a chyllid.

Mae cymwysterau cyfrifeg a chyllid ymarferol AAT yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bob cyflogwr i chi.

- Mae cyrsiau hyblyg yn ei gwneud hi'n hawdd ffitio dysgu o amgylch eich bywyd chi.
- Wedi'u parchu'n gyffredinol a'u cydnabod yn rhyngwladol.
- Deunyddiau astudio, adnoddau a chefnogaeth arobryn.
- Mae cyflogwyr yn ymddiried mewn cymwysterau AAT.
- 40,000 o aelodau mewn mwy na 90 o wledydd.



## Iechyd a Diogelwch - NEBOSH ac IOSH (Bwrdd Arholi Cenedlaethol mewn Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol) (Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol)

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

Mae Cambria yn cynnig cyrsiau achrededig gan y Bwrdd Arholi Cenedlaethol mewn Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (NEBOSH). Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer y rhai sydd am ddatblygu gyrfa mewn iechyd a diogelwch; diogelwch tân; diogelwch adeiladu; iechyd a llesiant a rheolaeth amgylcheddol. Mae gan gymhwyster Diploma NEBOSH statws gradd anrhydedd. Bydd y rhan fwyaf o Brifysgolion yn caniatáu i raddedigion Diploma NEBOSH gael cymhwyster Meistr mewn iechyd a diogelwch.

Mae'n cynnwys tair uned.

**DN1** – Gwybod - egwyddorion iechyd a diogelwch yn y gweithle;
**DN2** – Gweithredu - rheoli materion iechyd yn y gweithle;
**DN3** – Gweithredu - rheoli materion diogelwch yn y gweithle.

I ddod yn rheolwr iechyd a diogelwch, byddai'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn i ddarpar weithwyr feddu ar Ddiploma NEBOSH yn ogystal â bod yn Aelod Siartredig o IOSH.

## Hyfforddi a Mentora

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

Mae hyfforddi yn sgil sydd mewn galw mawr. Mae cydnabyddiaeth o effaith gadarnhaol sgiliau hyfforddi ar fusnes wedi tyfu yn ystod y degawd diwethaf a gall fod yn effeithiol wrth reoli timau trwy newid; lleihau effaith pwysau ac ansicrwydd cynyddol trwy gynyddu eu hyblygrwydd a'u hunanhyder.

Mae ein hamrywiaeth o gymwysterau hyfforddi wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau hyfforddi ystwyth. Bydd yn eich helpu chi i ddarganfod potensial unigolion a thimau trwy feithrin eu hunanhyder, gwella eu perfformiad gwaith a'u helpu i wireddu eu potensial llawn.




## Adnoddau Dynol - CIPD (Sefydliad Siartredig Datblygu Personél)

**CLICIWCH YMA**
am ragor o wybodaeth

Rydyn ni'n falch o fod yn Ganolfan Blatinwm CIPD, sy'n golygu ein bod ni'n cael ein cydnabod am ddarparu ansawdd rhagorol yn gyson yn erbyn safonau CIPD ar gyfer marcio, asesu ac aelodaeth. Caiff ein cyrsiau CIPD eu haddysgu gan diwtoriaid cymwys iawn sydd â phrofiad helaeth yn y diwydiant, ac mae'r cymwysterau hyn yn cael eu cydnabod yn fyd-eang, gan weithredu fel porth i ddatblygiad gyrfa hirdymor o fewn y Proffesiwn Pobl:

Rydyn ni'n falch o fod yn Ganolfan Platinwm CIPD, y lefel uchaf o achrediad gan y Sefydliad Siartredig Datblygu Personél. Mae hyn yn golygu bod ein cyrsiau'n cael eu cyflwyno i'r safon uchaf gan diwtoriaid gwbl gymwys gyda phrofiad helaeth yn y diwydiant.

- Datblygwch eich gyrfa a gwnewch wahaniaeth yn eich sefydliad:
- Hybwch eich potensial dysgu a'ch rhagolygon gyrfa.
- Rhowch eich dysgu ar waith yn y gwaith ar unwaith.
- Cyfrannwch at lwyddiant cynaliadwy eich sefydliad.

## Arwain a Rheoli - ILM (Sefydliad Arwain a Rheoli)

**CLICIWCH YMA** am ragor o wybodaeth

ILM yw darparwr cymwysterau arwain a rheoli gorau'r DU, gan arbenigo mewn arwain, rheoli, hyfforddi a mentora, ond hefyd yn cynnig ystod eang o gymwysterau penodol i sectorau a sgiliau.

Mae ein cymwysterau ILM wedi'u dylunio i ddatblygu eich gwybodaeth graidd a'ch sgiliau ymarferol y bydd eu hangen arnoch chi i reoli, cymell ac ysbrydoli eraill, darganfod potensial staff, cynyddu ymgysylltiad a galluogi newid.

Datblygu, cyflwyno a dylunio rhaglenni corfforaethol i symud busnes ymlaen. Mae Cambria yn cynnig cyrsiau ILM drwy gydol y flwyddyn ar draws ystod o lefelau.

## Rheoli Prosiectau - PRINCE2®

**CLICIWCH YMA** am ragor o wybodaeth

Mae PRINCE2® yn ddull rheoli prosiectau strwythuredig y gellir ei deilwra i brosiect o unrhyw faint. Wedi'i ddatblygu gan lywodraeth y DU ac yn seiliedig ar yr arfer gorau, mae'n feincod sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar gyfer rheolwyr prosiectau ac mae ardystiad yn ychwanegiad cadarn at CV unrhyw weithiwr proffesiynol.

Rydyn ni'n cynnal cwrs Sylfaen PRINCE2® fel cwrs annibynnol neu ar y cyd â'r Ymarferydd PRINCE2®. Mae'r cwrs Sylfaen yn dridiau o hyd. Mae'r cwrs Ymarferydd yn ddau ddiwrnod o hyd.

Mae PRINCE2® yn nod masnach gofrestredig AXELOS Limited, ac sy'n cael ei ddefnyddio gyda chaniatâd AXELOS Limited. Cedwir pob hawl. Mae logo SwirlTM yn nod masnach AXELOS Limited, sy'n cael ei ddefnyddio gyda chaniatâd AXELOS Limited. Cedwir pob hawl.

## Cyrsiau Byr

Ydych chi angen awgrymiadau arbenigol ar faterion allweddol arwain, rheoli neu Adnoddau Dynol? Neu a ydych chi eisiau rhai atebion busnes cyflym sy'n hawdd eu deall a'u gweithredu? Wedi'n lleoli yn ein Hysgol Fusnes Cambria yn Llaneurgain, rydyn ni'n darparu ystod o gyrsiau hanner diwrnod a diwrnod llawn wedi'u teilwra i'ch gofynion chi. O reoli cyfarfodydd i adeiladu tîm i wasanaethau i gwsmeriaid effeithiol, gall ein tîm profiadol helpu beth bynnag yw eich anghenion. Mae cyrsiau hefyd ar gael i'w cyflwyno ar y safle neu ar-lein ar gais.

**CLICIWCH YMA** am ragor o wybodaeth

**Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion: cyflogwyr@cambria.ac.uk 0300 30 30 006**



## Lukas Stevenson

### HNC a HND mewn Rheolaeth Anifeiliaid

Fel chef hyfforddedig yn gweithio yng Ngwlad Pwyl, sylweddolais fod fy angerdd gwirioneddol y tu hwnt i'r gegin, roeddwn i eisiau gweithio gydag anifeiliaid a gwneud gwahaniaeth yn y byd naturiol. Arweiniodd hyn fi at astudio HNC a HND mewn Rheolaeth Anifeiliaid ar safle Llaneurgain yn Cambria.

Oherwydd yr arweiniad amhrisiadwy a gefais, ynghyd â'r cyfleusterau rhagorol, mi wnes i lwyddo i symud ymlaen yn uniongyrchol i astudiaeth lefel prifysgol.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf, cefais y cyfle i archwilio llwybrau gyrfa amrywiol, ac erbyn fy ail flwyddyn, mi wnes i ddarganfod sut i uno fy niddordebau â rhywbeth gwirioneddol ystyrlon. Mi wnes i gyfuno gwyliau teuluol â lleoliad gwaith, gan wirfoddoli ar adfer riffiau cwrel wrth blymio sgwba yng Ngwlad Thai — profiad sydd wedi trawsnewid fy mywyd.

Rhoddodd y gefnogaeth a'r anogaeth barhaus gan diwtor fy nghwrs drwy gydol fy astudiaethau'r hyder i mi ddilyn fy mreuddwydion. Ers cwblhau fy MSc mewn Bioleg Forol, rydw i erbyn hyn yn paratoi i ddechrau PhD yng Ngwlad Thai — taith sydd â'i gwreiddiau yn Llaneurgain.

CANOLFAN BRIFYSGOL
CAMBRIA
UNIVERSITY CENTRE

**DIGWYDDIADAU AGORED 2025/2026**
**Cliciwch yma am ddyddiadau**

# DEWCH I'N GWELD NI YN

### Glannau Dyfrdwy

Ffordd Celstryn
Cei Connah
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 4BR

### Chweched Glannau Dyfrdwy

Lôn Golfftyn
Cei Connah
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 4BH

### Llysfasi

Ffordd Rhuthun
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2LB

### Llaneurgain

Ffordd Treffynnon
Llaneurgain
Sir y Fflint
CH7 6AA

### Ffordd y Bers

Ffordd y Bers
Wrecsam
LL13 7UH

### Iâl a Chweched Iâl

Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam
LL12 7AB

**Mae'r coleg wedi ymrwymo i gyfle cyfartal. Os oes angen fformat amgen ar gyfer y cyhoeddiad hwn arnoch chi, anfonwch e-bost at marchnata@cambria.ac.uk.**

**Mae'r Canllaw Cliciwch gyda Cambria ar gael yn Saesneg ar-lein hefyd.**

**Mae'r holl fanylion yn gywir ar adeg argraffu'r canllaw.**

**WWW.CAMBRIA.AC.UK | 0300 30 30 007**